

DANGOSFWRDD COEDWIGAETH

Hydref 2019 – Medi 2020

% y gweithgaredd sy'n berthnasol i'r sector coedwigaeth:



21%

O WEITHGAREDD COEDWIGAETH



MAE **548** O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU

gyda Cyswllt Ffermio yn dod o'r sector coedwigaeth.

Y Rhwydwaith Arddangos

Fedw Arian Uchaf: Buddion plannu coed mewn system ffermio

Amcanion:

- Creu cynllun rheoli gwrychoedd i asesu'r asedau.
- Defnyddio isadeiledd gwyrdd presennol i greu dolydd/caeau o faint addas ar gyfer system bori cylchdro gan ddefnyddio arferion amaeth goedwigaeth.

Enghraifft o adroddiad asesu gwrychoedd ar gyfer 'gwrychyn rhif 2' ar fferm Fedw Arian:


Math o wrychoedd a phrysgwydd	% sy'n tyfu yn y gwrychyn
Drain duon	35
Drain gwynion	30
Coed cyll	25
Llwyfen lydanddail	5
Arall	5

Cyflwr y gwrychoedd: Gwrychoedd iach, dwys gyda nifer o goesynnau. Cafodd y gwrychyn diwethaf ei blannu yn 2005. Mae ambell i fwch bach yn dechrau datblygu tua'r gwaelod.

Dulliau rheoli ar hyn o bryd: Tocio'n flynyddol.

Argymhellion rheolaeth: Caniatáu i'r gwrychoedd dyfu o ran lled ac uchder. Wrth ail-blannu yn y dyfodol, ail-ffensio ychydig ymhellach i mewn i'r cae.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ail amcan o wella'r isadeiledd cyffredinol ar y fferm, maent hefyd wedi ystyried sut mae hyn yn ymwneud â darparu nwyddau cyhoeddus.



Negeseuon allweddol:

- Gall rheoli adnoddau naturiol mewn modd cadarnhaol a chynaliadwy wella perfformiad amgylcheddol ac economaidd y busnes fferm.
- Ar ôl Brexit, bydd potensial i atgyfnerthu 'Brand Cymru' drwy wella'r amgylchedd i safon uwch a fydd yn cynnig llwyfan gadarn ar gyfer cynhyrchu cynnyrch o Gymru.

EIP Cymru

Sefydlu coed mewn rhedyn trwchus

Mae gorchudd rhedyn trwchus yn ei gwneud yn anodd i goed sefydlu, ac yn aml, mae coed yn cael eu plannu mewn ardaloedd lle mae'n anodd cael mynediad gyda pheiriannau. Bydd y prosiect hwn yn edrych ar wahanol opsiynau peirianyddol ar gyfer paratoi safleoedd sy'n osgoi'r angen am chwynladdwyr cemegol.

Un opsiwn yw defnyddio tyrchwr bach gyda gydag offer tyrchu yn sownd wrtho. Dull arall yw defnyddio peiriant palu sy'n cael ei reoli o bell (fel y gwelir yn y llun isod). Mae'r peiriannau hyn yn ein galluogi i weithio'n ddiogel ar lethrau a thir garw.

Plannwyd y coed ym mis Mawrth 2020 ac mae gwaith monitro rheolaidd yn cael ei wneud i asesu twf.

Er gwaetha'r faith na chafwyd llawer o law am dri mis ar ôl plannu, mae'r coed wedi sefydlu'n dda gyda llai na 5% o gollodion.

Plannwyd pedair rhywogaeth o goed: derw, pyrwydd sitka, coed crafal a bedw. Y coed crafal a'r coed bedw sydd wedi sefydlu orau gyda thwff o 20cm ar leiniau lle mae'r tir wedi cael ei drin er mwyn torri gwreiddgyff y rhedyn.



Cliciwch yma neu'r sgrîn deledu i wlyio fideo sy'n amlinellu'r prosiect.



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cyhoeddwyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- BIO-OLOGG AR GYFER NEWID HINSAWDD: A YW'N STRATEGAETH HYFYW?
- HERIAU A FYDD YN CODIYN Y DYFODOL WRTH DDARPARU GWASANAETHAU GAN GOETIROEDD YNG NGHYMRU
- NWYDDAU CYHOEDDUS A FFERMIO
- COEDWIGAETH AR RADDFA FECHAN I GYNHYRCHU BIOYNNI – RHAN 1: RHYWOGAETHAU COED PWYSIG I'W HYSTYRIED
- TECHNOLEG DAL A STORIO CARBON – I2 FFORDD Y GALLWCH CHI DDEFNYDDIO'R DECHNOLEG AR EICH FFERM

Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 118 Cymhorthfa

Roedd y prif bynciau'n cynnwys:



Derbyniodd un busnes gefnogaeth drwy gymhorthfa goetiroedd yn trafod y rheolau sy'n ymwneud â chreu coetir ger ardal SoDdGA a syniadau ynglŷn â sut i adfer y tir mewn modd naturiol trwy wella bioamrywiaeth. O ganlyniad i dderbyn y cyngor, mae'r busnes yn bwriadu creu coetir ar dir y fferm.

Agrisgôp

CYNHALIWYD **32** CYFARFOD YN YMWNEUD Â CHOEDWIGAETH

Dyma rai o'r enghreifftiau o themâu'r grwpiau:



Grwpiau Trafod



CYNHALIWYD

8 CYFARFODYN CANOLBWYNTIO
AR FATERION COEDWIGAETH gyda

47 O FYNCHWYR

Gweminarau



Cynhaliwyd **33** GWEMINAR gyda

4,015 O WYLLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

07/07/20 Manteision plannu coed ar gyfer y busnes ffermio

Yn ystod y webinar hon, cafodd mynychwyr gyfle i glywed gan Iwan Parry, Uwch Reolwr Coetir ar ran Tilhill Forestry, a fu'n trafod buddion amgylcheddol ac economaidd plannu a sefydlu coedwigoedd ar ffermydd. Roedd rhai o'r pynciau trafod yn cynnwys: dylunio a chynllunio coetir, math o dir i'w blannu, a phlannu'r goeden iawn yn y lle iawn a sicrhau eu bod yn sefydlu. Ymunodd 30 o fynychwyr â'r webinar hon.

16/07/20 Ychwanegu gwerth at goetir fferm

Bu Gareth Davies, cyfarwyddwr Coed Cymru, yn trafod y ffordd orau o reoli coetir ar y fferm er mwyn cynhyrchu deunydd o ansawdd uchel yn ogystal ag ychwanegu gwerth at goed ar y fferm. Ymunodd 51 o fynychwyr i glywed am y cyfleoedd sydd ar gael i sefydlu coetiroedd cynhyrchiol, gan ystyried newid yn yr hinsawdd, y peiriannau angenrheidiol ar gyfer rheoli coetir, logisteg cyffredinol ar gyfer gweithgareddau coetir a throsolwg o raddio coed.

13/08/20 A yw eich coed yn addas at y diben ac yn cyflawni'r hyn sydd ei angen at y fferm?

Roedd y webinar hon yn canolbwyntio ar waith a gwblhawyd ar fferm Fedw Arian Uchaf, lle mae gwrychoedd wedi cael eu plannu gyda'r bwriad i'w datblygu fel adnodd aml-ddefnydd ar y fferm. Bu Geraint Jones, Swyddog Technegol Coedwigaeth Cyswllt Ffermio yn trafod agweddau ar y prosiect, megis cynllunio ar gyfer gwelliant a darparu cysgod. Rhoddwyd gwybodaeth hefyd ynglŷn â'r rheolau, y rheoliadau a'r cyllid sydd ar gael ar gyfer rheoli. Bu Geraint hefyd yn trafod a oedd y gwrychoedd yn addas i'r diben, pryd yw'r amser gorau i docio a phryd i blannu. Bu hefyd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â charbon. Ymunodd 13 unigolyn â'r webinar hon.

Cyfnewidfa Rheolaeth

Cyfnewidfa Rheolaeth David Phillips, Mehefin – Awst 2019

Pwnc: Agronomeg ac amaethu rhywogaethau coed ar gyfer cynhyrchu coed Nadolig i leihau hyd y cylchdro a gwella ansawdd a chynnyrch y coed.

Gwledydd: Denmarc ac Iwerddon

Nod ymweliadau David oedd ymchwilio i ddulliau agronomeg ac amaethu rhywogaethau coed er mwyn cynhyrchu coed Nadolig, ac yn benodol, y ffynidwydden llwydlas. Penderfynodd ymweld ag Iwerddon gan fod yr hinsawdd a'r priddoedd yn debyg i Gymru, a bu'n ymweld â Denmarc gan fod diwydiant coed Nadolig mawr iawn yno.

Yn ystod ei daith, roedd David yn awyddus i:

- Ddysgu am eu dulliau cynhyrchu
- Datblygu gwell dealltwriaeth o'r dulliau cynhyrchu
- Cwrdd â chwmnïau sy'n ymwneud â'r diwydiant
- Gweld sut mae coed yn cael eu rheoli er mwyn cynhyrchu dail ffynidwydden llwydlas

Yn dilyn ei brofiad o'r Gyfnewidfa Rheolaeth, plannodd David ffynidwydd llwydlas ar gyfer y dail yn benodol, gan ymchwilio i'r rhai a fyddai'n gweddu orau i'r hinsawdd a'r math o bridd ar ei dir cyn dechrau ar y gwaith.

Cliciwch yma i weld adroddiad David yn llawn.



Mentora

Mae gennym ni **7 Mentor Coedwigaeth** ar y fframwaith



Cliciwch yma i weld proffil **Alwyn**



Cliciwch yma i weld proffil **Chris**



Cliciwch yma i weld proffil **David**




Cliciwch yma i weld proffil **Huw**



Cliciwch yma i weld proffil **Ioan**



Cliciwch yma i weld proffil **Neil**




Cliciwch yma i weld proffil **Phil**

Mae **6%** o'r rhai sy'n cael eu mentora yn derbyn cefnogaeth gyda materion coedwigaeth/coetir.

Mae'r pynciau'n cynnwys:



Rheoli coetir



Cael y gorau o goetir cymysg



Plannu coetir newydd



Gorchudd parhaus

Mentoro



ROEDD

4

CYFLEYN CYNWYS COEDWIGAETH




2

GEISIWR O FEWN Y SECTOR COEDWIGAETH

Hyfforddiant

Cafwyd 4 cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020 gyda **878** achos o hyfforddiant wedi cael eu darparu yn ystod y cyfnod. O'r rhain, galla **63** ohonynt gael eu hystyried o fewn y sector Coedwigaeth.

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant o'r Sector Coedwigaeth



Roedd y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob thema'n cynnwys:

CYNLLUNIO A DATBLYGU BUSNES



TORRI A PHROSESU COED HYD AT 380MM



E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector Coedwigaeth yn cynnwys:

Adnabod Coed



Manteision Plannu Coed ar Ffermydd Ucheldir



Newid yn yr Hinsawdd a Rheoli Tir



Am ragor o fanylion am y cyrsiau e-ddysgu, ewch i'r [wefan](http://www.llyw.cymru/cyswlltffermio).

